| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cyngor** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **9 Rhagfyr 2014** |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol:** | **Cynghorydd Julian Thompson-Hill** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Stuart Andrews, Rheolwr Caffael Strategol Dros Dro** |
| **Teitl:** | **Cyflwyno Rheolau Diwygiedig y Weithdrefn Gontractau** |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Cyflwyno Rheolau'r Weithdrefn Gontractau diwygiedig i'r Cyngor Llawn i'w cymeradwyo ar 9 Rhagfyr 2014 - Atodiad 1.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Mae'r Rheolau'r Weithdrefn Gontractau drafft yn cael eu cyflwyno i'r Cyngor llawn i'w cymeradwyo a'u mabwysiadu ar ôl iddynt gael eu hadolygu gan y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ar 5 Tachwedd 2014.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Cyngor yn nodi a derbyn Rheolau'r Weithdrefn Gontractau diwygiedig ac yn awdurdodi eu gweithrediad gan holl adrannau'r Cyngor.

## 4. Manylion yr Adroddiad

Nid yw'r Rheolau'r Weithdrefnau Gontractau presennol wedi cael eu hadolygu'n llawn ers eu mabwysiadu'n flaenorol yn 2004. Cynhaliwyd adolygiad o'r ddogfen gan y Rheolwr Caffael Strategol Dros Dro a'r Dirprwy Swyddog Monitro i ddiweddaru'r ddogfen yn unol â deddfwriaeth gyfredol a gweithdrefnau caffael arferion gorau diweddaraf.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae ychwanegu cymalau sy'n gwneud ystyried cymalau Budd i'r Gymuned ym mhob contract uwchlaw £2,000,000 yn cyfrannu at flaenoriaeth y Bwrdd Uchelgais Economaidd a Chymunedol, bydd gostwng y trothwyon ariannol yn sicrhau bod mwy o gyfleoedd gwerth tendro llai yn cael eu hysbysebu a fydd yn caniatáu i fusnesau bach a chanolig lleol i fod yn fwy ymwybodol o gyfleoedd i wneud busnes gyda'r Cyngor. Mae Rheolau'r Weithdrefn Gontractau hefyd yn sicrhau bod holl adrannau'r Cyngor yn cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth gyfredol mewn perthynas â chaffael Nwyddau, Gwasanaethau a Gwaith.

**6. Faint fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Nid oes unrhyw gost o fabwysiadu'r ddogfen hon ac ni fydd angen staff ychwanegol.

**7. Beth yw'r prif gasgliadau o'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylid atodi Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb wedi ei gwblhau fel atodiad i'r adroddiad hwn.**

Nid oes unrhyw oblygiadau ar unrhyw un o'r staff neu'r gymuned fel y nodwyd yn yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb.

**8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi eu cynnal gyda'r Pwyllgor Archwilio ac eraill?**

Cynhaliwyd ymgynghoriad gyda'r holl feysydd gwasanaeth y Cyngor o ran y broses o adolygu'r Rheolau'r Weithdrefn Gontractau. Mae'r holl sylwadau wedi cael eu hadolygu a'u hystyried lle bo'n briodol ac yn berthnasol i ofynion y ddogfen. Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ar 5 Tachwedd 2014 lle y cafodd ei gymeradwyo i'w gyflwyno i'r Cyngor Llawn er mwyn derbyn cymeradwyaeth derfynol.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Mae'r Rheolau'r Weithdrefn Gontractau yn ffurfio rhan bwysig o gaffael ac mae eu hadolygu yn gwella rheolaeth y cyngor o'r swyddogaeth hon.

**10. Pa risgiau sydd yna, ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Y brif risg yw Adrannau nad yw'n cydymffurfio â'r Rheolau'r Weithdrefn Gontractau newydd a all amharu ar Reoliadau Caffael y DU a'r UE. Ar ôl rhoi'r ddogfen ddiwygiedig ar waith, bydd rhaglen hyfforddi ar gyfer pob maes gwasanaeth i ddiffinio gofynion y ddogfen a'r goblygiadau o beidio â chydymffurfio. Bydd yr hyfforddiant yn ofynnol ar gyfer yr holl swyddogion sy'n cyflawni unrhyw weithgaredd caffael ar ran y Cyngor. Bydd hyfforddiant o'r fath hefyd ar gael ar gyfer yr holl Aelodau Etholedig yn unol â chais y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Adran 111 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Mae hwn yn bapur er gwybodaeth yn hytrach na phenderfyniad cyn ei gyflwyno i'r cabinet llawn.

Dogfennau sy'n Amgaeedig:

Atodiad 1 Rheolau'r Weithdrefn Gontractau (Diwygiedig)

Atodiad 2 Crynodeb o'r Newidiadau Allweddol